# Newidiadau arfaethedig i'r Penderfyniad ynghylch y lwfansau i Aelodau'r Pumed Cynulliad

**Adroddiad Bwrdd Taliadau**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Tachwedd 2014

## Y Bwrdd Taliadau

Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff annibynnol sy'n gyfrifol am bennu cyflogau, pensiynau a lwfansau Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Cafodd y Bwrdd ei sefydlu gan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010, a gafodd Gymeradwyaeth Frenhinol ar 22 Gorffennaf 2010.

## Aelodau'r Bwrdd

**Sandy Blair CBE DL (Cadeirydd)**
**Mary Carter**
**Stuart Castledine**
**Yr Athro Monojit Chatterji**
**Yr Athro Laura McAllister**

## Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd

**Gareth Price,** Clerc
**Dan Collier,** Dirprwy Glerc

Mae copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru**

Gellir cael copïau o'r adroddiad hwn mewn ffurfiau hygyrch, gan gynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Clerc y Bwrdd Taliadau**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: 029 2089 8566
Ffacs: 029 2089 8117
E-bost: **Taliadau@cymru.gov.uk**

# Cynnwys

**Rhagair** ..... **4**

**Newidiadau arfaethedig i'r Penderfyniad ynghylch y lwfansau i Aelodau'r Pumed Cynulliad** ..... **6**

Sut i ymateb i'r ymgynghoriad hwn ..... 6

**01. Cynnig - Llety Preswyl** ..... **7**

Rhesymeg ..... 7

Costau ..... 9

Cwestiynau ..... 10

**02. Cynnig - Darpariaethau i ofalwyr** ..... **11**

Rhesymeg ..... 11

Cost ..... 13

Cwestiynau ..... 13

**03. Cynnig - Costau teithio Aelodau'r Cynulliad a Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad** ..... **14**

Rhesymeg ..... 14

Cost ..... 15

Cwestiynau ..... 15

**04. Cynnig - Costau swyddfa a throsglwyddo arian rhwng cyllidebau** ..... **16**

Rhesymeg ..... 16

Cost ..... 18

Cwestiynau ..... 18

**05. Cynnig - Aelodau'n gadael eu swydd** ..... **19**

Rhesymeg ..... 19

Cost ..... 20

Cwestiynau ..... 20

**06. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a materion eraill** ..... **21**

# Rhagair

Fel rhan o'i baratoadau ar gyfer y Pumed Cynulliad mae'r Bwrdd Taliadau annibynnol yn adolygu pob agwedd ar ei Benderfyniad[1]. Rydym yn bwriadu cwblhau'r gwaith hwn erbyn gwanwyn 2015, blwyddyn cyn yr Etholiad Cyffredinol yng Nghymru, fel bod darpar ymgeiswyr yn gwybod yn union pa gymorth fydd ar gael iddynt os cânt eu hethol.

– Mae ein gwaith wedi'i rannu'n bedair ffrwd:

– Taliadau - cyflog;

– Taliadau - pensiwn;

– Cymorth i Aelodau'r Cynulliad; a

– Lwfansau.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnwys cyfres o gynigion o dan y ffrwd Lwfansau. Mae Aelodau'n cael lwfansau ar gyfer eu costau teithio eu hunain a'u staff, llety preswyl pan fyddant i ffwrdd o gartref, costau swyddfa ac wrth adael eu swydd. Nid yw'n cynnwys cynigion ar gyfer cyflog Aelodau'r Cynulliad, yr ymgynghorir arno ym mis Tachwedd 2014. Cyhoeddir ein cynigion ar gyfer y trefniadau cyfan ar gyfer cyflogau, cymorth a lwfansau i'r Aelodau, gan gynnwys cyfuniad o bob ffrwd gwaith, i ymgynghori arnynt yn y Flwyddyn Newydd. Bydd hyn yn rhoi cyfle i Aelodau'r Cynulliad a'r cyhoedd weld yr holl gynigion yn eu cyfanrwydd.

Rydym wedi ystyried a oes gan y Penderfyniad presennol y cydbwysedd cywir rhwng cyflog a chymorth priodol i'r Aelodau a gwerth am arian i'r trethdalwr. Comisiynwyd adroddiad gan Brifysgol Bangor[2] i werthuso'r rhwystrau i fod yn Aelod, a rydym wedi'i ystyried wrth lunio ein cynigion ar gyfer Penderfyniad y Pumed Cynulliad.

Rydym yn sicr bod yr egwyddorion a nodir yn y Penderfyniad presennol yr un mor ddilys ag erioed. Er y gall y tîm Cymorth Busnes i Aelodau, sy'n cefnogi'r Aelodau mewn perthynas â'r materion hyn, roi cyngor i'r Aelodau, cyfrifoldeb yr Aelodau unigol ydyw o hyd i sicrhau bod eu hawliadau o fewn y rheolau a'u bod yn cadw cofnodion digonol i gefnogi'r hawliadau. Mae bod yn agored ac yn dryloyw ynghylch sut y mae'r Aelodau yn gwario eu lwfansau yn bwysig i ymddiriedaeth y cyhoedd. Mae System y Cynulliad ar gyfer Cyhoeddi Lwfansau, sy'n darparu cronfa ddata y gellir ei chwilio o hawliadau'r Aelodau, yn rhagorol mewn perthynas â hyn.

[1] ***Penderfyniad 2014 ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau***

[2] *Gwerthuso'r rhwystrau i ddod i'r Cynulliad: Beth sy'n ein rhwystro rhag sefyll i gael ein hethol i'r Cynulliad? Prifysgol Bangor, Gorffennaf 2014*
***http://www.senedd.assembly.wales/documents/s33267/Bangor%20University%20report%20Research%20into%20barriers%20for%20entry%20into%20the%20Assembly.pdf***

Mae Comisiynydd Safonau y Cynulliad yn nodi yn ei adroddiad blynyddol bod y Cynulliad wedi sefydlu diwylliant cyfrifol:

"Mae'n wir, yn fy marn i, bod Aelodau'r Cynulliad yn cymryd eu cyfrifoldebau o dan y Cod Ymddygiad o ddifrif, ac mae gan y cyhoedd bob rheswm i fod â ffydd yn yr Aelodau a'r Cynulliad, ac yn eu tryloywder, ac nid oes ganddynt fawr ddim rheswm, ar hyn o bryd, i amau hynny."[3]

Bydd gan Aelodau presennol y Cynulliad, a'u staff, ddiddordeb amlwg yn ein cynigion ond gallant hefyd fod yn berthnasol i lawer y tu allan i'r Cynulliad. Rydym yn croesawu ymatebion i'r ymgynghoriad hwn gan unrhyw sefydliad neu unigolyn.

15 Rhagfyr 2014 yw'r dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad. Mae'r manylion am sut i ymateb ar y dudalen nesaf.

Er bod pwerau a chyfrifoldebau'r Cynulliad wedi cynyddu ers ei sefydlu, ac y disgwylir iddynt gynyddu yn y dyfodol, 60 o Aelodau sydd gennym o hyd, ac ni ragwelir y bydd hyn yn newid yn y byrdymor. Beth bynnag fo maint y Cynulliad, byddwn yn ymdrechu i sicrhau bod ein Penderfyniad yn rhoi'r lwfansau priodol i'r Aelodau wneud eu gwaith, gan roi sylw penodol i sicrhau gwerth am arian i'r trethdalwr.

Credwn y bydd ein cynigion yn cynnig mwy o hyblygrwydd i'r Aelodau, ac ar yr un pryd yn cynnal y mesurau hanfodol hynny sy'n diogelu'r Aelodau, trethdalwyr ac enw da y Cynulliad.

Edrychwn ymlaen at gael eich barn.



**Sandy Blair CBE DL**
**Cadeirydd**
**Y Bwrdd Taliadau**

[3] **Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd Safonau ar gyfer 2013-14**, paragraff 01.06

# Newidiadau arfaethedig i'r Penderfyniad ynghylch y lwfansau i Aelodau'r Pumed Cynulliad

Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi'r cynigion ar gyfer y meysydd a ganlyn o ran lwfansau (ac yn cyfeirio at adran berthnasol Penderfyniad 2014 ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau[4]):

– Llety Preswyl (Pennod 4)

– Darpariaeth i ofalwyr[5]

– Costau teithio yr Aelodau a'u staff cymorth (Pennod 5)

– Costau swyddfa a throsglwyddiadau (Pennod 6)

– Aelodau'n gadael eu swydd (Pennod 10)

## Sut i ymateb i'r ymgynghoriad hwn

Os hoffech ymateb, anfonwch gopi electronig o'ch sylwadau at: Taliadau@cymru.gov.uk a rhowch y teitl canlynol ar yr e-bost, "Ymgynghoriad – Lwfansau Aelodau'r Cynulliad".

Fel arall, gallwch ysgrifennu at:

Gareth Price, Clerc
Y Bwrdd Taliadau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, CF99 1NA

Dylai unrhyw dystiolaeth gyrraedd erbyn 15 Rhagfyr 2014. Mae'n bosibl na fydd modd ystyried unrhyw ymateb a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.

Wrth baratoi eich sylwadau, cadwch y canlynol mewn cof:

– dylai eich ymateb gyfeirio at y cwestiynau a ofynnwyd gan y Bwrdd. Mae'r cwestiwn olaf (6.2) yn rhoi cyfle i godi unrhyw faterion eraill.

– er mwyn bod yn dryloyw, mae'r Bwrdd Taliadau wedi cytuno y bydd yn rhoi ymatebion i ymgyngoriadau cyhoeddus ar ein tudalennau gwe. Os nad ydych am i'ch ymateb na'ch enw gael eu cyhoeddi, mae'n bwysig eich bod yn nodi hynny'n glir wrth gyflwyno eich sylwadau.

---

[4] *Caiff y Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau ei ddiweddaru'n flynyddol a gellir ei lwytho drwy glicio ar y* ***http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s29730/Determination%20on%20Members%20Pay%20and%20Allowances%20-%20August%202014.pdf****.*

[5] *Ni cheir y cymorth hwn mewn un lleoliad yn y Penderfyniad. Er enghraifft, mae treuliau eithriadol yn adran 2.4, ac mae teithio ar gyfer partneriaid neu blant yn adran 5.18.*

# 01.Cynnig - Llety Preswyl

Ar ôl ystyriaeth ofalus, mae ein cynigion i addasu'r Penderfyniad ar gyfer lwfansau llety preswyl i Aelodau'r Cynulliad fel a ganlyn:


- cadw'r system bresennol o benderfynu cymhwysedd ar gyfer Llety Preswyl yng Nghaerdydd yn seiliedig ar etholaethau. Fodd bynnag, rydym yn cynnig mwy o hyblygrwydd ar gyfer Aelodau newydd y Cynulliad yn dilyn etholiad, gan roi cyfle iddynt wneud achos busnes dros gymhwysedd Llety Preswyl yng Nghaerdydd pan fo'u hachos yn un anarferol;
- cael gwared ar y lwfans ar gyfer Aelodau sy'n byw yn yr ardal fewnol;
- cadw'r lwfans presennol ar gyfer costau gwesty: uchafswm o £95 y noson mewn gwesty (ar wahân i Lundain a Brwsel pan fo'r uchafswm yn £150). Fodd bynnag, byddwn yn rhoi'r hyblygrwydd i'r tîm Cymorth Busnes i Aelodau ad-dalu hawliadau'r Aelodau sydd uwchlaw'r uchafsymiau hyn pan fo galw eithriadol yn golygu nad yw'n bosibl dod o hyd i lety am y prisiau hyn.

## Rhesymeg

Os bydd yn briodol i Aelod aros i ffwrdd o gartref dros nos, mewn cysylltiad â'i rôl fel Aelod Cynulliad, gellir ad-dalu'r gost o wneud hynny.

Ar hyn o bryd, mae'r rheolau sy'n ymwneud â'r ad-daliad hwn yn dibynnu ar yr etholaeth neu'r rhanbarth y mae'r Aelod yn ei gynrychioli:

- Gall yr Aelodau hynny sy'n byw yn yr 'ardal allanol' (a ddiffinnir gan y rheini sy'n cynrychioli etholaethau o fewn ffiniau rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru, a rhanbarth Gogledd Cymru) hawlio hyd at uchafswm o £8,820 ar gyfer aros dros nos yng Nghaerdydd ym mhob blwyddyn. Yn gyffredinol, defnyddir y lwfans hwn i dalu am gostau llety rhent yng Nghaerdydd hyd at uchafswm o £735 y mis;
- Gall yr Aelodau hynny sy'n byw yn yr 'ardal ryngol' (a ddiffinnir gan y rheini sy'n cynrychioli etholaethau De-orllewin Cymru, sef Gŵyr, Castell-nedd, Dwyrain Abertawe a Gorllewin Abertawe) hawlio hyd at uchafswm o £3,420 ar gyfer aros dros nos yng Nghaerdydd ym mhob blwyddyn;
- Gall yr Aelodau hynny sy'n byw yn yr 'ardal fewnol' (pob Aelod Cynulliad arall) hawlio hyd at uchafswm o £1,425 ar gyfer aros dros nos yng Nghaerdydd ym mhob blwyddyn.




Mae'r ffin ddaearyddol anhyblyg yn golygu y gall nifer fach o'r Aelodau yn yr ardal ryngol orfod teithio am gryn dipyn o amser bob dydd yn ôl ac ymlaen i'r Cynulliad. Gall hyn, mewn gwirionedd, fod yn hwy na'r hyn a wynebir gan rai o'r Aelodau yn yr ardal allanol. Rydym wedi adolygu'r system a'r ffiniau ar sawl achlysur ac wedi dod i'r casgliad y gallai unrhyw system sy'n seiliedig ar reolau anhyblyg, o bosibl, fod o anfantais i rai Aelodau.

Felly, rydym yn cynnig cadw'r system bresennol ar gyfer yr Aelodau yn yr ardal allanol a'r ardal ryngol, ond sicrhau mwy o hyblygrwydd. Yn y Cynulliad nesaf, byddwn yn cynnwys darpariaeth ar gyfer Aelodau Cynulliad sydd newydd eu hethol (neu eu hail-ethol) i wneud

achos busnes i'r tîm Cymorth Busnes i Aelodau i ofyn, yn sgil eu hamgylchiadau teithio personol, iddynt fod yn gymwys i gael Llety Preswyl yng Nghaerdydd os ydynt o'r farn eu bod dan anfantais oherwydd lleoliad eu hetholaeth. Er enghraifft, gallai Aelod sy'n byw yn yr ardal ryngol, ond y mae'n cymryd dros awr iddo deithio i'r Cynulliad (h.y. mwy o amser na nifer o Aelodau yn yr ardal allanol), fod ag achos rhesymol dros gael Llety Preswyl yng Nghaerdydd.

Er mwyn cael eithriad o dreth, mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn ei gwneud yn ofynnol nad yw cost aros mewn gwesty dros nos yn 'digwydd yn ddiangen'. Yn dilyn newid yn y canllawiau gan Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, mae arosiadau'r Aelodau o'r ardal fewnol mewn gwestai yng Nghaerdydd bellach yn ddarotyngedig i dreth gan nad yw Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn eu hystyried fel rhywbeth sydd wedi digwydd o angen, oni bai eu bod mewn amgylchiadau eithriadol.

Ers i'r lwfans fod yn ddarostyngedig i dreth, mae nifer y ceisiadau wedi gostwng yn sylweddol. Mae'r Bwrdd hefyd yn cytuno â Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ei bod yn anodd, heblaw mewn amgylchiadau eithriadol, cyfiawnhau cost gwesty ar gyfer Aelod sy'n byw o fewn awr o amser teithio o'r Cynulliad. Byddai llawer o bobl sy'n gweithio yn ardal Caerdydd - a gweddill Cymru - yn teithio pellter tebyg neu am amser tebyg, a gall yr Aelodau hawlio am y gost o deithio rhwng eu cartref a'r Cynulliad.

Felly, rydym yn cynnig cael gwared ar y lwfans ar gyfer aros dros nos i'r Aelodau hynny sy'n byw yn yr ardal fewnol. Fodd bynnag, bydd yr Aelodau yn dal i gael y cyfle i wneud cais i'r tîm Cymorth Busnes i Aelodau gytuno ar ad-daliad mewn amgylchiadau eithriadol.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae adegau wedi bod pan fo'r Aelodau wedi teimlo nad oedd yr uchafswm ar gyfer cost gwesty (£95) yn ddigon, gan fod gwestai'n aml yn amrywio eu prisiau yn dibynnu ar lefel y galw. Er enghraifft, efallai na fydd ystafelloedd mewn gwesty o fewn yr ystod pris hwn ar gael pan fo digwyddiadau mawr yng Nghaerdydd.

Nododd y Bwrdd hefyd fod gan bob Senedd a Chynulliad arall yn y DU uchafsymiau ar lefel uwch. Er nad yw'r Bwrdd yn ystyried cynyddu uchafswm y lwfans ar hyn o bryd, rydym yn cynnig rhywfaint o hyblygrwydd ychwanegol er mwyn cynyddu'r uchafswm pan gaiff ei gytuno ymlaen llaw â'r tîm Cymorth Busnes i Aelodau.

## Costau

Mae'n anodd amcangyfrif costau'r darpariaethau diwygiedig hyn o ystyried y byddai'r newidiadau hyn yn gymwys i'r Aelodau newydd yn y Pumed Cynulliad, lle gall eu hamseroedd teithio fod yn wahanol iawn i amseroedd teithio yr Aelodau presennol.

Byddai arbedion sicr yn sgil cael gwared ar lwfans yr ardal fewnol, a chostau ychwanegol yn sgil dull mwy hyblyg y Bwrdd o ran y ffiniau.

Dim ond mewn achosion eithriadol y ceir mwy o hyblygrwydd mewn perthynas â chostau gwesty, ac ni ddylai'r costau ymylol fod yn llawer.

# Cwestiynau

**1.1** A ydych yn cefnogi cynnig y Bwrdd i ganiatáu i unrhyw Aelod yn yr ardal ryngol neu'r ardal fewnol y mae'n rhaid iddo deithio'n bellach neu am gyfnod hwy na'r rheini mewn ardaloedd cyfagos wneud achos busnes i gael ei eithrio?

**1.2** A ydych yn cytuno â chynnig y Bwrdd i gael gwared ar y ddarpariaeth i'r Aelodau yn yr ardal fewnol?

**1.3** A ydych yn cytuno â chynnig y Bwrdd i ganiatáu cynyddu'r uchafswm presennol ar gyfer costau gwestai gyda chaniatâd ymlaen llaw gan y tîm Cymorth Busnes i Aelodau?

# 02.Cynnig - Darpariaethau i ofalwyr

Mae'r Bwrdd yn ymwybodol bod galwadau ar Aelodau'r Cynulliad sy'n ei gwneud yn anodd iddynt gael cydbwysedd priodol rhwng bywyd a gwaith. Er bod hyn yn wir ar gyfer pob swydd broffesiynol, mae patrwm gwaith yr Aelodau a'r galwadau arnynt yn nodedig.

Amlygodd y gwaith ymchwil a gomisiynwyd gan Brifysgol Bangor mai'r pwysau rhwng bywyd a gwaith, yn ogystal â'r pellter rhwng yr etholaeth/rhanbarth a Chaerdydd yw'r ddau brif ffactor a allai gael dylanwad ar y penderfyniad i sefyll fel ymgeisydd. Gall y pwysau i fynd i gyfarfodydd yn yr etholaeth/rhanbarth a chyflawni eu dyletswyddau yn y Senedd fynd yn groes i fywyd teuluol yr Aelodau a'u cyfrifoldebau fel gofalwyr.

Yn y gorffennol, rydym wedi ystyried creu rhyw fath o lwfans i ofalwyr ac wedi cymharu hyn â threfniadau deddfwrfeydd eraill yn y DU. Ar ôl cael barn yr Aelodau, penderfynodd y Bwrdd adolygu'r maes hwn yn fwy llawn fel rhan o'i ystyriaeth o becyn cyflog yr Aelodau yn y Pumed Cynulliad.

Mae'r Bwrdd yn ymwybodol o'r ystod o fesurau sydd eisoes ar waith yn y Cynulliad i gefnogi'r rheini sydd â chyfrifoldebau gofalu. Er bod gan y Bwrdd gyfrifoldeb i sicrhau y gall yr Aelodau wneud eu gwaith hyd eithaf eu gallu, rydym hefyd o'r farn bod gan bleidiau gwleidyddol rôl bwysig i'w chwarae yn sicrhau cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith Aelodau'r Cynulliad.

Mae ein cynnig ar gyfer darpariaeth i ofalwyr fel a ganlyn:

- Byddwn yn mabwysiadu dull tebyg i San Steffan, lle gall yr Aelodau hynny sy'n byw yn yr ardal allanol ac sydd â phlant neu ddibynyddion eraill sy'n byw gyda hwy'n rheolaidd yng Nghaerdydd, fod yn gymwys i gael lwfans ychwanegol ar gyfer eu llety.
- Byddwn yn sicrhau bod pob Aelod yn ymwybodol o'r ddarpariaeth Treuliau Eithriadol[6] yn y Penderfyniad.

## Rhesymeg

Mae'n ofynnol hefyd i'r Bwrdd bennu lefel o daliadau i'r Aelodau sy'n adlewyrchu cymhlethdod a phwysigrwydd y swyddogaethau y maent yn ymgymryd â hwy, ac nad yw'n rhwystro unigolion, am resymau ariannol, rhag ceisio cael eu hethol i'r Cynulliad. Felly, mae'r Bwrdd yn awyddus i fynd i'r afael â'r rhwystrau a allai rwystro pobl rhag rhoi cynnig ar fod yn Aelod. Mae ein gwaith ymchwil, gan gynnwys yr adroddiad gan Brifysgol Bangor, wedi tynnu sylw at bryderon ynghylch y cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, a'r pellter o Gaerdydd fel y prif bryderon.

Y diffiniad o 'ofalwr' yw rhywun o unrhyw oedran sy'n darparu cymorth di-dâl i deulu neu ffrindiau na allent ymdopi heb y cymorth hwn. Gallai hyn gynnwys gofalu am blentyn,

---

[6] *Gweler adran 2.4 Penderfyniad 2014 ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau.*

perthynas, partner neu ffrind sy'n wael, yn fregus, yn anabl neu sydd â phroblemau iechyd meddwl neu broblemau camddefnyddio sylweddau.[7]

Er mwyn cael barn allanol ar ein cynigion, byddwn yn gwahodd sylwadau ar y mater hwn gan Diverse Cymru, sydd wedi'i gomisiynu i roi cyngor inni ar faterion sy'n ymwneud â chydraddoldeb a'n helpu i ddatblygu Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Teimlwn fod trefniadau presennol y Cynulliad i helpu Aelodau'r Cynulliad â chyfrifoldebau gofalu yn cynnwys enghreifftiau o arfer gorau. Mewn rhai amgylchiadau, maent yn fwy hael na'r darpariaethau sydd ar gael mewn deddfwrfeydd eraill yn y DU.

Mae'r trefniadau a ganlyn eisoes ar waith:

- Gall yr Aelodau hawlio costau teithio diderfyn rhwng eu cartref neu etholaeth a Bae Caerdydd;
- Gall yr Aelodau hynny sy'n byw yn yr ardal allanol hawlio hyd at £735 y mis i rentu llety gyda dodrefn yng Nghaerdydd. Mae'r ffigur wedi'i bennu fel y dylai fod yn ddigon i gynnwys dwy ystafell wely, a chaiff ei adolygu'n flynyddol. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ddarpariaethau ar gyfer hawlio mwy pan fo gan yr Aelod fwy nag un dibynnydd yn byw gydag ef;
- Caiff yr Aelodau eu hethol, nid eu cyflogi, ac felly nid ydynt yn destun unrhyw gyfyngiadau o ran gwyliau blynyddol, absenoldeb mabwysiadu, cyfnod mamolaeth a chyfnod tadolaeth, absenoldeb oherwydd dyletswyddau gofalu neu unrhyw fath arbennig arall o absenoldeb;
- Mae Rheolau Sefydlog y Cynulliad yn ei gwneud yn ofynnol bod amserlenni yn ystyried teulu a chyfrifoldebau etholaethol neu ranbarthol yr Aelodau. Mae hyn yn golygu na chaiff busnes ffurfiol ei drefnu y tu allan i 09:00-18:00 fel arfer, ac mae'r toriad fel arfer yn cyd-fynd â'r rhan fwyaf o wyliau ysgol. Er hynny, rydym yn cydnabod bod busnes y Cynulliad yn aml yn digwydd ar ôl 18:00 ac oherwydd natur rôl yr Aelod, mae'n gyffredin mynd i ddigwyddiadau ar y penwythnos a gyda'r nos. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol y gall pleidiau fod yn hyblyg ar achlysuron o ran pryd y byddant yn gofyn i'r Aelodau wneud busnes y Cynulliad;
- Gall yr Aelodau hynny sydd â phlant gael talebau gofal plant drwy gynllun aberthu cyflog, a chaiff lleoedd cyfyngedig - a godir ar gyfraddau'r farchnad - eu cadw ym meithrinfa Bae Caerdydd, ar gyfer yr Aelodau;
- Grŵp gwleidyddol yr Aelod sy'n trefnu llawer o ofynion busnes yr Aelod o ddydd i ddydd. Cyfrifoldeb yr Aelod a'r grŵp yw rheoli'r rhain yn briodol;
- Ar gyfer yr Aelodau hynny na allant ddod i gyfarfodydd Pwyllgor yn bersonol, mae'n bosibl defnyddio cyfleusterau fideogynadledda; a

[7] ***Ymddiriedolaeth y Gofalwyr***

– Gall yr Aelodau hynny sy'n teimlo bod angen mwy o gymorth ariannol arnynt na'r hyn a ddarperir, wneud cais i'r Bwrdd Taliadau am Dreuliau Eithriadol[8].

Trafododd y Bwrdd y ddarpariaeth sydd ar gael mewn deddfwrfeydd eraill, ac mae'n ystyried cyflwyno hyblygrwydd tebyg i'r hyn a geir yn San Steffan lle byddai'r Aelodau yn yr ardal allanol, sydd â chyfrifoldebau gofalu am ddibynyddion sy'n byw gyda hwy pan maent yng Nghaerdydd, yn gymwys i wneud cais am lwfans ychwanegol.

Rydym yn ymwybodol iawn fod pob Aelod yn unigolyn sydd ag anghenion a chyfrifoldebau unigryw. Wrth lunio rheolau, rydym yn deall, o bryd i'w gilydd, y bydd amgylchiadau eithriadol yn codi. Byddwn yn sicrhau bod pob Aelod yn ymwybodol o allu'r Bwrdd i ddarparu cymorth ariannol mewn amgylchiadau eithriadol i sicrhau y gall yr Aelod gyflawni ei rôl yn briodol.

## Cost

Bydd hyn yn dibynnu ar y rhifau dan sylw. Byddwn yn cyfrifo'r lwfans ychwanegol ar gyfer yr Aelodau hynny sy'n byw yn yr ardal allanol y mae eu dibynyddion yn byw gyda hwy pan fyddwn yn adolygu'r cyllidebau ar gyfer y Lwfans Preswyl yn flynyddol ym mis Ionawr.

Mae taliadau eithriadol, yn ôl eu natur, yn amhosibl eu rhagweld. Ar gyfer yr holl newidiadau a gynigir gennym, rydym yn rhagweld cost ymylol fach.

## Cwestiynau

**2.1** A ydych yn cytuno â chynnig y Bwrdd i wella'r lwfans llety preswyl ar gyfer yr Aelodau hynny sy'n byw yn yr ardal allanol ac sydd â dibynyddion sy'n byw gyda hwy'n rheolaidd yng Nghaerdydd?

**2.2** A ydych yn cytuno bod y camau eraill a gynigiwyd gan y Bwrdd yn ffordd resymol o fynd i'r afael â chymorth i ofalwyr?

**2.3** Rydym yn awyddus i sicrhau bod y Cynulliad yn gwneud popeth o fewn ei allu i ddenu ymgeiswyr o drawstoriad eang o'r gymdeithas, a byddem yn croesawu unrhyw gynigion penodol eraill.

---

[8] *Gweler adran 2.4 Penderfyniad 2014 ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau.*

# 03.Cynnig - Costau teithio Aelodau'r Cynulliad a Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad

Mae ein cynigion i ddiwygio'r Penderfyniad ar gyfer costau teithio Aelodau'r Cynulliad a Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad fel a ganlyn:

– Cael gwared ar yr uchafswm presennol o £2,000 y gall Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth ei hawlio ar gyfer costau teithio a goramser, ar yr amod bod yr arian ar gael yn y gyllideb staffio;

Ar ôl ystyriaeth ofalus, rydym yn cynnig peidio â newid yr elfennau a ganlyn o'r Penderfyniad:

– Cadw'r ddarpariaeth ar gyfer 36 taith sengl gan staff cymorth fesul swyddfa rhwng yr etholaeth a Bae Caerdydd;

– Cadw'r cyfraddau milltiroedd presennol ar gyfer Aelodau'r Cynulliad, yn unol â lwfansau cyfraddau milltiroedd cymeradwy Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi;

– Cadw'r trefniadau presennol ar gyfer teithio yn yr UE, ac i wledydd y tu allan i'r UE.

## Rhesymeg

Mae'r adborth a gafodd y Bwrdd wedi tynnu sylw at bryderon ynghylch y ffaith bod yr uchafswm o £2,000 ar yr hyn y gellir ei hawlio o'r gyllideb staffio ar gyfer costau teithio a goramser staff yn rhy gyfyngedig. Mae'r terfyn hwn ar gostau teithio ychwanegol yn bennaf yn cael effaith ar Aelodau Rhanbarthol pan fo ardal etholaethol fwy yn golygu bod angen i staff deithio mwy.

Roedd yr uchafswm o £2,000 yn un o argymhellion y Panel Adolygu Annibynnol yn ei gyhoeddiad yn 2009, sef 'Yn Gywir i Gymru'[9.] Cafodd ei gyflwyno ar yr un pryd ag y cafodd gallu'r Aelodau i dalu bonysau i'w staff ei ddileu. Fodd bynnag, mae'r Aelodau wedi cael rhywfaint o hyblygrwydd i fynd yn uwch na'r uchafswm hwn mewn amgylchiadau eithriadol drwy ddarparu achos busnes.

Ni cheir uchafswm tebyg yn unrhyw ddeddfwrfa arall yn y DU.

Yn ogystal â'r gyllideb ar gyfer costau teithio staff, caniateir i staff cymorth hefyd deithio ar 36 o deithiau sengl fesul swyddfa rhwng yr etholaeth a Bae Caerdydd. Mae San Steffan yn caniatáu 96 o deithiau sengl fesul swyddfa. Fodd bynnag, mae mwy o staff ar gyfartaledd

9 ***Yn Gywir i Gymru - Cynulliad Cenedlaethol Cymru***, Gorffennaf 2009 ***http://www.assembly.wales/NAfW%20Documents/irp-reportjuly09-e.pdf%20-%2027102011/irp-reportjuly09-e-Welsh.pdf***

fesul swyddfa yn swyddfeydd yr Aelodau Seneddol. Gan nad oes unrhyw aelod o staff yr Aelodau wedi gwneud 36 neu fwy o deithiau, nid yw'r Bwrdd yn ystyried cynyddu'r rhif hwn.

Caiff cyfraddau milltiroedd eu talu yn unol â chyfraddau milltiroedd cymeradwy Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Ar gyfer ceir, mae'r cyfraddau hyn ar hyn o bryd yn 45c y filltir ar gyfer y 10,000 o filltiroedd cyntaf a deithiwyd, ac yn 25c y filltir wedyn. Rydym o'r farn y dylai cyfraddau milltiroedd cymeradwy Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi fod yn gymwys i Aelodau'r Cynulliad yn unol â chyrff eraill y sector cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, y Cynulliad Cenedlaethol a deddfwrfeydd eraill yn y DU.

Nid yw'r Bwrdd wedi cael unrhyw adborth ynghylch y ddarpariaeth i'r Aelodau deithio ar bedwar achlysur y flwyddyn i unrhyw aelod-wladwriaeth neu ranbarth arall yn yr UE ar fusnes sy'n ymwneud â'r Cynulliad. Gall yr Aelodau hawlio ar gyfer dwy noson o lety, y gost o hedfan a chostau cysylltiedig perthnasol. Rydym yn cynnig nad oes angen i'r ddarpariaeth bresennol i Aelodau'r Cynulliad deithio o fewn yr Undeb Ewropeaidd newid.

Yn 2013, cyflwynodd y Bwrdd lwfans a oedd yn caniatáu i'r Aelodau deithio i wledydd y tu allan i'r UE, yn amodol ar gyflwyno achos busnes priodol. Gall yr Aelodau hawlio ar gyfer pum noson o lety, y gost o hedfan a chostau cysylltiedig perthnasol. Gan nad ydym wedi cael unrhyw adborth ar y ddarpariaeth hon, rydym wedi dod i'r casgliad ei bod yn briodol fel y mae.

## Cost

Ni fydd llawer o gostau'n gysylltiedig ag unrhyw newidiadau i gael gwared ar yr uchafswm ar gyfer costau teithio a goramser staff oherwydd byddai unrhyw wariant wedi'i gyfyngu gan y balans sy'n weddill gan yr Aelod yn ei gyllideb ar gyfer costau staffio.

## Cwestiynau

**3.1** A ydych yn cefnogi cynnig y Bwrdd i gael gwared ar yr uchafswm ar gyfer costau teithio a goramser staff (ar yr amod bod digon o arian yng nghyllideb staffio yr Aelod)?

# 04. Cynnig - Costau swyddfa a throsglwyddo arian rhwng cyllidebau

Ar ôl ystyriaeth ofalus, mae ein cynigion ar gyfer diwygiadau i'r Penderfyniad ar gyfer costau swyddfa a throsglwyddo arian rhwng cyllidebau fel a ganlyn:

- Caniatáu i Aelodau'r Cynulliad brynu eu dodrefn swyddfa yn uniongyrchol gan gyflenwyr heb gyfyngiadau penodol. Fodd bynnag, byddai'r tîm Cymorth Busnes i Aelodau ar gael i ddarparu cymorth pe bai angen.
- Cyflwyno darpariaeth ar gyfer grant untro o £1,000 i gael ei ymestyn i Aelodau sydd wedi gwasanaethu am gyfnod hwy (y rheini sydd eisoes wedi gwasanaeth dau dymor) i gael dodrefn swyddfa newydd ym mlwyddyn gyntaf y Pumed Cynulliad.
- Lleihau'r uchafswm lle caiff y gost o sicrhau iechyd a diogelwch yn y gwaith ei dalu gan y Cynulliad. Mae'r uchafswm ar hyn o bryd yn £1,000 a bydd yn gostwng i £500.
- Cyflwyno darpariaeth i Aelodau'r Cynulliad drosglwyddo eu cyllideb staffio sydd heb ei wario i'w cyllideb ar gyfer costau swyddfa, hyd at uchafswm o 25% o'r gyllideb ar gyfer costau swyddfa.

Nid ydym yn cynnig unrhyw newid i'r elfennau a ganlyn:

- Cadw'r diffiniad presennol o'r eitemau y caniateir i'r Aelodau gael ad-daliad amdanynt o'r lwfans ar gyfer costau swyddfa (fel yr amlinellir yn adran 6.2.1 o'r Penderfyniad).
- Cadw'r grant dodrefn o £5,000 ar gyfer Aelodau newydd y Cynulliad.
- Cadw'r trefniant canolog ar gyfer darparu llungopïwyr ar gyfer swyddfeydd.

## Rhesymeg

Yn y Penderfyniad presennol, caiff yr Aelodau hawlio am 'holl gostau rhesymol rhedeg swyddfa ac ymwneud ag etholwyr'[10]. Mae'r diffiniad hwn yn amlwg yn eang iawn ac nid yn unig yn cwmpasu costau swyddfa a fyddai'n amlwg ar unwaith, fel rhent, trethi a chyfleustodau, ond hefyd costau llai amlwg fel datblygu gwefan a chostau rhedeg, hysbysebu, ffonau symudol a threuliau cyfreithiol.

Yn 2011, cyflwynodd y Bwrdd ddarpariaeth sy'n galluogi'r Aelodau sy'n sefydlu swyddfa etholaethol neu ranbarthol am y tro cyntaf i wneud archeb untro am ddodrefn, hyd at werth o £5,000. Cafwyd rhywfaint o adborth cyfyngedig gan yr Aelodau i awgrymu nad yw'r grant o £5,000 ar gyfer dodrefn newydd yn ddigon, er bod y data gan yr Aelodau yn

[10] *Penderfyniad 2014 ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau, adran 6.1.*

dangos na wnaeth y mwyafrif o'r Aelodau wario'r gyllideb gyfan. Yn ein barn ni, mae'r lwfans hwn yn briodol o hyd.

Yn unol â'n dymuniad i roi mwy o hyblygrwydd i'r Aelodau, rydym yn cynnig y dylai'r Aelodau gael prynu eu dodrefn swyddfa gan gyflenwyr heb gyfyngiadau penodol. Yn y gorffennol, roedd yn rhaid i'r Aelodau brynu o un ffynhonnell, a dywedodd rhai o'r Aelodau y byddent wedi hoffi defnyddio cyflenwyr lleol. Rydym hefyd yn cydnabod efallai y byddai angen i'r Aelodau sydd wedi bod yn gwasanaethu am gyfnod hwy (yn gwasanaethu dau dymor neu fwy) brynu offer newydd i'w swyddfa yn y Pumed Cynulliad. I fynd i'r afael â hyn, rydym yn cynnig grant untro o hyd at £1,000 i'w wario ym mlwyddyn gyntaf y Pumed Cynulliad.

Mae'r Penderfyniad presennol yn caniatáu i swm ychwanegol o arian fod ar gael i'r Aelodau dalu am unrhyw wariant sydd dros £1,000 o ran rhagofalon iechyd a diogelwch, pan fo rhywun priodol, fel yr heddlu, wedi argymhell rhagofalon o'r fath. Mae'r adborth a gafwyd gan yr Aelodau yn awgrymu bod yr uchafswm o £1,000 yn rhy uchel, gyda dim ond ychydig iawn yn defnyddio'r gronfa ers ei sefydlu. Felly, rydym yn cynnig y dylid lleihau'r uchafswm ar gyfer y gronfa i £500 yn y Pumed Cynulliad.

Mae'r Bwrdd wedi mynegi ei ddymuniad i wella'r hyblygrwydd sydd ar gael i'r Aelodau ac mae wedi ystyried llawer o opsiynau, gan gynnwys rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i'r Aelodau drosglwyddo arian naill ai rhwng cyllideb staffio a chyllideb ar gyfer costau swyddfa yr Aelodau, neu rhwng blynyddoedd ariannol, neu'r ddau.

Mae'r adborth a gafwyd gan yr Aelodau wedi nodi y byddai'r hyblygrwydd i ganiatáu trosglwyddiadau rhwng y gyllideb staffio a'r gyllideb ar gyfer costau swyddfa yn cael ei groesawu.

Cyn 2011, roedd yr Aelodau yn gallu trosglwyddo hyd at 25% o'u cyllideb ar gyfer costau swyddfa i'w cyllideb staffio, neu i'r gwrthwyneb. Fodd bynnag, cafodd yr opsiwn i drosglwyddo ei atal gan y panel annibynnol a oedd yn pryderu ynghylch y ffaith y gallai'r Aelodau drosglwyddo arian ar gyfer costau swyddfa nad oedd wedi'i ddefnyddio i'w lwfans staffio, a thrwy hynny gydag arian ychwanegol ar gael i wneud taliadau bonws i'w staff. Ni chaniateir taliadau bonws mwyach.

Rydym yn cynnig caniatáu i'r Aelodau drosglwyddo i un cyfeiriad yn unig - o'u cyllideb staffio i'w cyllideb ar gyfer costau swyddfa. Caiff y capasiti hwn ei gyfyngu i 25% o'r gyllideb ar gyfer costau swyddfa. Yn seiliedig ar y ffigurau presennol, byddai hyn yn uchafswm o £4,253.

Gwnaethom ystyried y costau o rentu swyddfa a wynebir gan yr Aelodau, sy'n amrywio'n fawr yn dibynnu ar eu lleoliad a safon yr adeilad, yn ogystal â chyflwr y farchnad yn yr ardal. Rydym yn cydnabod y gall fod yn anodd yn rhai rhannau o Gymru i ddod o hyd i adeilad hygyrch mewn lleoliad priodol gyda'r gyllideb sydd ar gael. Gobeithio y bydd yr hyblygrwydd ychwanegol hwn yn ddefnyddiol i'r Aelodau hynny.

## Cost

Gall y grant untro o £1,000 sydd i'w ymestyn i'r Aelodau sydd wedi gwasanaethu am gyfnod hwy (dau dymor neu fwy) i brynu dodrefn newydd ar gyfer eu swyddfeydd ym mlwyddyn gyntaf y Pumed Cynulliad gael ei ddefnyddio gan lawer.

Cafodd 36 o Aelodau eu hethol cyn 2011, a byddent yn gymwys - er bod nifer o'r rhain eisoes wedi cyhoeddi na fyddant yn sefyll yn 2016. O ystyried cyfran y grant a ddefnyddiwyd yn 2011, a nifer debygol yr Aelodau a fydd yn gymwys, rydym yn amcangyfrif ei bod yn annhebygol y bydd cost y grantiau untro hyn yn fwy nag £20,000. Ni chaiff y gyllideb ar gyfer costau swyddfa ei phennu ar gyfer 2015-16 hyd nes ddechrau 2015. Felly, rydym yn disgwyl pennu ffigurau dangosol ar gyfer costau swyddfa 2016-17 bryd hynny.

## Cwestiynau

**4.1** Mae'r Bwrdd yn cynnig cadw'r rhan fwyaf o'r trefniadau presennol yn y maes hwn. A oes unrhyw feysydd lle nad ydym yn cynnig newid y credwch y dylem wneud hynny?

**4.2** A ydych yn cefnogi cynnig y Bwrdd i roi mwy o hyblygrwydd i'r Aelodau wrth benderfynu ar ble i brynu eu dodrefn swyddfa? Ac a yw £5,000 y swm cywir ar gyfer y dodrefn swyddfa?

**4.3** A ydych o'r farn bod lwfans untro o £1,000 ar gyfer yr Aelodau hynny sydd wedi gwasanaethu am gyfnod hwy er mwyn prynu dodrefn swyddfa newydd ar ddechrau eu trydydd tymor yn briodol?

**4.4** A ydych yn cefnogi cynnig y Bwrdd i leihau'r uchafswm y mae'n rhaid i'r Aelodau ei dalu am ragofalon iechyd a diogelwch yn y gwaith?

**4.5** A ydych yn cefnogi cynnig y Bwrdd i ganiatáu i'r Aelodau drosglwyddo swm cyfyngedig o'r lwfans staffio sydd heb ei wario i'w cyllideb ar gyfer costau swyddfa? Ac os felly, a yw'r uchafswm (25% o'r gyllideb ar gyfer costau swyddfa) yn briodol?

# 05.Cynnig - Aelodau'n gadael eu swydd

Nid ydym yn cynnig unrhyw newidiadau pellach i'r darpariaethau presennol ar gyfer y Grant Ailsefydlu i Aelodau'r Cynulliad sy'n colli mewn etholiad. Fodd bynnag, ar ôl ystyried yr adroddiad gan Brifysgol Bangor, ac ystyried yr hyn y byddai rhai o'r Aelodau wedi'i wynebu yn etholiad 2011, rydym yn sympathetig i'r heriau a wynebir gan yr Aelodau hynny sy'n colli mewn etholiad. Gall rhai o'r Aelodau fod yn disgwyl colli eu sedd, ond i eraill bydd yn annisgwyl neu'n rhy agos i wybod ymlaen llaw. Naill ffordd, byddant yn wynebu dyfodol gwahanol iawn gyda'r holl gymorth sy'n dod gyda rôl yr Aelod yn dod i ben yn sydyn.

Rydym yn bwriadu archwilio ymhellach a fyddai'n bosibl cynnig rhyw fath o wasanaeth cynghori a ddarperir yn allanol am gyfnod cyfyngedig i gefnogi'r Aelodau hynny sy'n colli eu sedd mewn etholiad.

Rydym hefyd yn cynnig y dylid cadw'r ddarpariaeth bresennol o lwfansau dirwyn i ben.

## Rhesymeg

Mae'r trefniadau ariannol ar gyfer yr Aelodau hynny sy'n rhoi gorau i'w sedd neu sy'n colli eu sedd yn cynnwys dwy ran - grant ailsefydlu, sef taliad personol i'r Aelod sy'n debyg i daliad diswyddo; a lwfans dirwyn i ben, sy'n talu'r costau sy'n gysylltiedig â diwedd cyfnod yr Aelod yn ei swydd.

Mae'r 36 o Aelodau a etholwyd cyn 2011 yn ddarostyngedig i drefniadau trosiannol o ran eu grant ailsefydlu. Mae'r Bwrdd eisoes wedi penderfynu y caiff taliadau ar gyfer yr Aelodau hynny sy'n dewis rhoi'r gorau i'w seddi eu dileu'n raddol.

Mae pob Aelod a etholwyd ers 2011 yn cael grant ailsefydlu fel a ganlyn, ar yr amod y byddant yn colli mewn etholiad:

- cyflog mis calendr am bob blwyddyn o wasanaeth a gwblhawyd, yn amodol ar uchafswm o chwe mis o gyflog;
- at hynny, mae gan ddeiliaid swyddi yr hawl i gael tri mis o gyflog am eu dyletswyddau ychwanegol a delir ar y gyfradd berthnasol o pan oeddent yn Ddeiliad Swydd Ychwanegol.

Felly, gan eithrio'r symiau sy'n daladwy i'r Deiliaid Swyddi Ychwanegol, mae uchafswm y grant ailsefydlu bellach gyfwerth â chwe mis o gyflog (sef y taliad lleiaf o dan y trefniadau trosiannol).

Mae gan yr Aelodau hynny nad ydynt yn Aelodau mwyach hawl i wneud cais am lwfans ar gyfer y costau yr aethpwyd iddynt wrth ddirwyn eu swydd i ben. Ar yr adeg nad yw'n Aelod mwyach, daw pob lwfans arall i ben.

Caiff yr uchafswm a hawlir ei reoli yn ôl cynllun dirwyn i ben y mae'r Aelod a thîm Cymorth Busnes i Aelodau'r Cynulliad wedi cytuno arno. Cyfrifir y swm hwn drwy gyfeirio at y cyfnod y cytunwyd arno ar gyfer dirwyn y swydd i ben (hyd at dri mis ar hyn o bryd) ac mae gyfwerth â'r canlynol:

– Lwfans costau swyddfa;

– Gwariant ar lety preswyl;

– Lwfans gwariant staffio.

Felly, byddai'r Aelodau yn cael cyfwerth â thri mis o'r lwfansau hyn mewn un lwfans dirwyn i ben. Caiff y swm sy'n daladwy ei dalu'n unol â'r cyllidebau hyn pan fo gorwario wedi bod.

Mae'r adroddiad a gomisiynwyd gan Brifysgol Bangor[11] yn nodi y gall y broses o symud o fod yn Aelod Cynulliad i golli sedd a chwilio am swydd arall fod yn heriol i'r Aelod a'i staff cymorth, yn arbennig os oedd yn annisgwyl.

O ganlyniad i hyn, rydym yn bwriadu ystyried cyflwyno gwasanaeth all-leoli sy'n rhoi cyngor a chymorth ymarferol i'r rheini na fyddant yn dychwelyd i'r Cynulliad ar ôl sefyll i gael eu hail-ethol, er mwyn eu helpu i symud i swydd newydd. Mae hyn yn arfer da yn y rhan fwyaf o sefydliadau cyhoeddus a phreifat pan fo staff yn gadael.

Rydym yn agored i awgrymiadau ynghylch sut y gallwn sicrhau'r math hwn o gymorth, ac a ddylai'r cymorth hwn gael ei drefnu'n ganolog neu a ddylai'r unigolion ei drefnu eu hunain. Byddem yn croesawu awgrymiadau adeiladol ynghylch pa gymorth fyddai fwyaf defnyddiol a sut y dylid ei gynnig.

## Cost

Byddai cost gwasanaeth all-leoli yn dibynnu ar natur y gwasanaeth a ddarperir. Fodd bynnag, gwasanaeth byrdymor fyddai hwn, wedi'i ddarparu i grŵp bach o bobl bob pum mlynedd.

## Cwestiynau

**5.1** Nid yw'r Bwrdd yn cynnig newidiadau mawr i'r rhan hon o'r Penderfyniad. A oes unrhyw agweddau lle credwch y dylid cael newidiadau?

**5.2** Beth yw eich barn ar gynnig y Bwrdd i ystyried darparu gwasanaeth all-leoli i'r Aelodau a'u staff cymorth pan fyddant yn colli mewn etholiad? A oes gennych farn ar sut y dylid cynnig y gwasanaeth hwn?

---

[11] *Gwerthuso'r rhwystrau i ddod i'r Cynulliad: Beth sy'n ein rhwystro rhag sefyll i gael ein hethol i'r Cynulliad?, Prifysgol Bangor, tudalennau 29-30*

# 06. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a materion eraill

**6.1** A ydych o'r farn y byddai unrhyw un o'r cynigion a nodir yn y ddogfen hon yn cael effaith anghymesur ar unrhyw unigolion neu grwpiau penodol o bobl, neu'n achosi anfantais iddynt?

**6.2** A oes unrhyw faterion eraill y dylem eu hystyried fel rhan o'n hadolygiad o'r Penderfyniad mewn perthynas â Lwfansau i'r Aelodau?